



Ein cyf/Our ref: LF CS 0704 15

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

28 Gorffennaf 2015

Annwyl Jocelyn

Bil yr Amgylchedd (Cymru)

Wrth i mi gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid ar 9 Gorffennaf, cytunais i ddarparu rhagor o wybodaeth am nifer o faterion mewn perthynas â Bil yr Amgylchedd (Cymru). Rwyf wedi nodi ymateb i bob un ohonynt isod.

1. Enghreifftiau o'r manteision economaidd

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, bu i chi ofyn am y dulliau a ddefnyddiwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (Asesiad), credaf fod y wybodaeth ganlynol yn helpu i ateb eich cwestiynau.

Gofynnodd y Pwyllgor ynghylch y cyflwyniad y costau a'r manteision yn yr Asesiad ac yn benodol, ynghylch y ffaith fod manteision yn cael eu dangos ochr yn ochr â'r costau ac a yw'r costau yn cael eu gwrthbwyso gan fanteision hefyd. Ni chredaf fod hyn yn wir yn achos Bil yr Amgylchedd; mae'r Asesiad yn nodi'n glir yr amcangyfrif o'r costau a'r manteision ar wahân. Mae'r ymchwil a gomisiynwyd i lywio'r Asesiad ynghyd â'r Asesiad ei hun wedi'u cynhyrchu yn unol â chanllawiau 'Llyfr Gwyrdd' Trysorlys EM y Llywodraeth ganolog ar arfarnu.

Yn benodol, mae'r Asesiad yn nodi crynodeb o'r costau a'r manteision a gynhwyswyd ar gyfer pob rhan o'r Bil ac ar gyfer y Bil yn ei gyfanrwydd hefyd. Mae'r Asesiad yn amcangyfrif bod y costau cyffredinol yn £291 miliwn gydag amcangyfrif o fanteision yn £359 miliwn felly mae'r budd net oddeutu £68 miliwn (cyflwynir yr holl ffigurau fel gwerth cyfredol dros 10 mlynedd).

Gofynnodd y Pwyllgor am fanylion ynghylch sut y mesurwyd y manteision yn yr Asesiad. Yn unol â'r cais, rwyf wedi nodi rhai enghreifftiau isod i egluro sut yr amcangyfrifwyd y manteision, ond ni ddylid ystyried hyn yn ddadansoddiad llawn.

Rhan 1: Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol

Y brif fantais bosibl a aseswyd fel un a gaiff effaith sylweddol yw'r cyfraniad at wella cydnerthed ecosystemau Cymru.

Mae ymchwil¹ yn awgrymu bod dull wedi'i dargedu o gynllunio defnydd tir sy'n cydnabod nwyddau ar gyfer y farchnad yn ogystal â gwasanaethau ecosystem nad ydynt ar gyfer y farchnad yn cynyddu gwerth net y tir 20% ar gyfartaledd i'r gymdeithas, gyda chynnydd llawer uwch yn digwydd mewn rhai lleoliadau.

Er nad oes model cynhwysfawr o wasanaethau ecosystem yng Nghymru a all fesur yn fanwl gywir y newidiadau posibl a fyddai'n deillio o reoli adnoddau naturiol yn well, mae yna astudiaethau sy'n gallu rhoi syniad o lefel y gwerthoedd dan sylw, mae'r asesiadau hyn wedi'u cynnwys yn yr Asesiad at ddibenion enghreifftiol. Fodd bynnag, ni ystyriwyd bod ymdrechion i gyfrifo'n fanylach y newidiadau mewn gwerth yn gadarn, felly, ni chawsant eu cynnwys yn y ffigur cyffredinol er lles y Bil.

Rhagwelir y bydd y manteision ansoddol disgwylidig o ganlyniad i'r Bil yn ychwanegu at y ffigur a amcangyfrifwyd yn yr Asesiad ar gyfer y Bil yn ei gyfanrwydd. Mae'r Asesiad yn nodi'r ffordd y rhagwelir y bydd y cynigion yn gwella cydnerthed ecosystemau Cymru, gan gynnwys manteision i gymunedau a'r amgylchedd.

Rhan 4: Casglu a Gwaredu Gwastraff

O ran manteision â gwerth ariannol, mae'r manteision mewn perthynas â chasglu a gwaredu gwastraff wedi eu mesur yn fwy manwl gywir gan fod tystiolaeth ar gael ar hyn o bryd (trowch i dudalennau 238 - 244 yn yr Asesiad). Fel y nodwyd yn yr Asesiad, mae'r asesiad o gostau a manteision Rhan 4 yn seiliedig ar ymchwil a wnaed gan Eunomia Research & Consulting Ltd gan ddefnyddio eu model llif gwastraff mewnol.

Fel gwerth presennol, y costau a amcangyfrifwyd ar gyfer darpariaethau gwastraff y Bil yw £159 miliwn dros 10 mlynedd gyda manteision o £218 miliwn.

Cafwyd y ffigurau ar gyfer y manteision â gwerth ariannol fel a ganlyn:

Busnesau Rheoli Gwastraff

Refeniw deunyddiau: £70.74 miliwn PV

Osgoi Treth Tirlenwi: £172.46 miliwn PV

Mae model Eunomia yn cymharu'r driniaeth debygol o ffrydiau gwastraff o dan senario gwaelodlin ('Gwneud Dim') ac o dan y polisi arfaethedig i gynhyrchu amcangyfrifon o'r gwariant cyfalaf ychwanegol a'r costau gweithredu parhaus sy'n gysylltiedig â chasglu gwastraff, costau trin gwastraff, refeniw o werthu deunyddiau y gellir eu hailgylchu a swmp y gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi (ac felly treth tirlenwi).

Fel yr amlinellir yn yr Asesiad, disgwylir i fusnesau rheoli gwastraff elwa'n gyffredinol ar y cynigion, yn bennaf oherwydd arbedion cost yn sgil osgoi treth tirlenwi, trin gweddillion a

¹ 52Bringing Ecosystem Services into Economic Decision-Making: Land Use in the United Kingdom
<http://www.google.co.uk/url?url=http://www.nottingham.ac.uk/cem/pdf/Bateman-2013>

refeniw o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu. Fodd bynnag, mewn marchnad gystadleuol gellid disgwyl y byddai rhai o'r arbedion hyn yn cael eu trosglwyddo i gynhyrchydd y gwastraff, gan leihau'r fantais i'r busnes rheoli gwastraff.

Gofynnaf i'r Pwyllgor nodi tra bod lleihau treth tirlenwi'n gyfystyr â mantais i fusnesau rheoli gwastraff yng Nghymru, mae cost gyfatebol yn sgil hynny i'r Trysorlys. Felly, nid yw'r ffigur hwn wedi'i gynnwys yn y £218 miliwn a nodir uchod.

Awdurdodau Carthffosiaeth

Costau Osgoi Triniaeth Dŵr: £7.08 miliwn PV

Disgwylir i'r gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffosydd gynhyrchu arbedion i awdurdodau carthffosiaeth drwy:

- leihau rhwystrau a difrod i systemau carthffosiaeth
- osgoi costau trin elifiant o danciau malu

Ar sail costau cyfredol a'r gostyngiad disgwyliedig yn y swmp o wastraff bwyd sy'n mynd i mewn i'r system garthffosiaeth, amcangyfrifir y bydd y manteision i awdurdodau carthffosiaeth rhwng £530,000 a £884,000 y flwyddyn.

Mantais Amgylcheddol

Costau Amgylcheddol â gwerth Ariannol: £139.77 miliwn PV

Cafwyd y ffigurau ar gyfer y manteision amgylcheddol â gwerth ariannol fel a ganlyn:

Amcangyfrifir y bydd gwaharddiad ar losgi a thirlenwi rhai deunyddiau'n creu manteision amgylcheddol. Mae'r fantais amgylcheddol â gwerth ariannol a gyflwynir uchod yn seiliedig ar werth ariannol allyriadau i'r aer, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd ac effeithiau llygredd aer, gyda'r olaf yn cael ei ystyried trwy werth ariannol yr effaith ar iechedd pobl.

Mae'r model yn amcangyfrif 2.5 miliwn tonnell fetrig ychwanegol o ddeunyddiau ailgylchu dros gyfnod o ddeng mlynedd a lleihad cyfatebol mewn CO₂ o 2.1 miliwn tonnell fetrig dros gyfnod o ddeng mlynedd.

Mae ymchwil ychwanegol wedi dangos y gellir sicrhau lleihad mawr mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yn erbyn y waelodlin gyfredol trwy ddargyfeirio deunyddiau blaenoriaeth o dirlenwi i ailgylchu.

Er enghraifft, mae'r arbedion carbon wrth wella dulliau rheoli plastig o wastraff diwydiannol a masnachol o'r sefyllfa waelodlin yn 2007/8 i lefel uchel o adennill deunyddiau (yn bennaf trwy ddargyfeirio gwastraff tirlenwi i ailgylchu) yn gymaint â 110,000 tonnell fetrig o CO₂.

Creu Swyddi

Mae'r Asesiad yn nodi nifer o fanteision eraill hefyd o ganlyniad i Ran 4 y Bil, gan gynnwys y posibilrwydd o greu swyddi. Mae rhagor o wybodaeth i'w weld isod, fodd bynnag, nid yw gwerth ariannol y manteision hyn wedi'i gyfrifo at ddibenion yr Asesiad.

Rhagwelir y bydd lefelau uchel o ailgylchu yn cynyddu cyflogaeth yng Nghymru. Yn ôl y Cyngor Sgiliau Sector, amcangyfrifir bod tua 7,850 o bobl yn cael eu cyflogi yn y diwydiant rheoli gwastraff yng Nghymru. Yn ôl gwaith ymchwil, gallai gweithredu graddfa ailgylchu o 70% ar gyfer pob gwastraff erbyn 2025 greu swyddi newydd yng Nghymru fel a ganlyn:

- 3,600 o swyddi newydd yn y sectorau trefol, masnachol a diwydiannol (gan gynnwys adeiladu a dymchwel).
- 2,600 o swyddi newydd yn y sector trefol yn unig.

Mae llawer o'r swyddi a gaiff eu creu yn deillio o:

- Gweithgaredd economaidd y diwydiannau ailddefnyddio, paratoi at ailddefnyddio ac ailgylchu.
- Cyflogaeth 'anuniongyrchol' (yn sgil gweithgarwch economaidd arall sy'n cefnogi'r diwydiant, er enghraifft y diwydiannau'n prynu nwyddau a gwasanaethau).
- Cyflogaeth 'achosol' (yn sgil gweithwyr cyflogedig yn gwario'u cyflogau yn yr economi).

Mae data'r Comisiwn Ewropeaidd yn dangos bod y sector rheoli gwastraff ar gyfer yr UE-25 yn cyfateb i 1.2 i 1.5 miliwn o swyddi. Gall ailgylchu 100,000 tonnall fetrig o wastraff greu hyd at 250 o swyddi o gymharu â 20-40 ar gyfer llosgi ac oddeutu 10 ar gyfer tirlenwi.

Rhan 3: Codi Taliadau am Fagiau Siopa

Estyn pwerau Gweinidogion Cymru i'w galluogi i bennu tâl am fathau eraill o fagiau siopa:

- Cyfanswm y costau yw £123.75 miliwn dros 10 mlynedd o gymharu â chyfanswm manteision o £132.02 miliwn. Mae'r ffigurau hyn yn deillio o ymchwil a gyflawnwyd gan Ricardo AEA a Llywodraeth Cymru. Gellir eu dadansoddi fel a ganlyn:
 - Costau: £8.25 miliwn i weithgynhyrchwyr (gostyngiad yn nifer y bagiau siopa untro sy'n cael eu prynu) a £115.50 miliwn i ddefnyddwyr (ar sail yr opsiwn dewisol o godi tâl am "fagiau hir oes").
 - Manteision: £37.66 miliwn o refeniw i adwerthwyr, £80 mil i gyfanwerthwyr a chynnydd o £66.76 miliwn mewn rhoddion i elusennau.
 - Arall: £19.25 miliwn trwy gynnydd mewn refeniw treth a £8.27 miliwn mewn effaith amgylcheddol (er enghraifft, llai o sbwriel, allyriadau carbon a llygredd aer).

Dyletswydd ar adwerthwyr i roi'r enillion o werthu bagiau siopa i achosion da:

- Mae'r costau meintiol yn £1.2 miliwn dros 10 mlynedd o gymharu â manteision o £8.7miliwn. Mae'r ffigurau hyn yn deillio o waith yr Asesiad a gyflawnwyd gan Ricardo AEA a Llywodraeth Cymru. Gellir eu dadansoddi fel a ganlyn:
 - Costau: £800 mil i fusnesau (mewn perthynas â darparu dau "adroddiad" y flwyddyn) a £400 mil am fonitro a gorfodi (wrth i gytundeb gorfodol gael ei gyflwyno).
 - Manteision: Mae hyn yn cynnwys £4.79 miliwn yn fwy o refeniw ar gyfer elusennau amgylcheddol a £3.92 miliwn yn fwy o refeniw ar gyfer elusennau nad ydynt yn amgylcheddol.

Mae'r ffigurau ar gyfer manteision amgylcheddol yn seiliedig ar fodel 'o'r gwaelod i fyny' a wnaed gan Ricardo AEA a oedd yn edrych ar effeithiau cymharol ar CO₂ ac ansawdd aer sy'n gysylltiedig â chynhyrchu gwahanol fathau o fagiau siopa ac effeithiau gwaredu/taflu sbwriel sy'n gysylltiedig â'r gwahanol fathau o fagiau siopa hefyd.

Cydgrynhowyd yr effeithiau hyn er mwyn adlewyrchu nifer yr amrywiol fathau o fagiau a brynwyd o dan bob opsiwn. Mae gweddill y manteision yn adlewyrchu ailddosbarthu refeniw o'r tâl ychwanegol am fagiau siopa (sy'n gost i'r defnyddiwr) rhwng adwerthwyr, cyfanwerthwyr, elusennau a'r trysorlys. Unwaith eto, mae hyn yn seiliedig ar waith modelu a wnaed gan Ricardo AEA.

2) Y costau y gallai awdurdodau lleol ac eraill orfod eu hysgwyddo os aiff rhywbeth i mewn i'r ffrwd gwastraff ailgylchu, a'i fod wedyn yn diweddu mewn safle tirlenwi

Mae'r Bil yn targedu busnesau a'r sector cyhoeddus yn hytrach nag aelwydydd.

Ni fyddai cost gwaredu llygryddion o'r ffrwd ailgylchu yn syrthio ar gwmnïau rheoli gwastraff, nac ar awdurdodau lleol, sy'n gweithredu eu gwasanaethau gwastraff masnachol ar sail adennill costau llawn. Byddai'r gost yn cael ei throsglwyddo i gynhyrchwyr gwastraff busnes gan awdurdodau lleol neu fusnesau rheoli gwastraff sy'n casglu eu gwastraff nhw. Bydd hyn yn gymhelliant i gynhyrchwyr gwastraff sicrhau safon well o ailgylchu er mwyn lleihau costau busnes.

3) Sail Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y ffigur archwilio o 1 y cant o safleoedd busnes

Mae'r ffigur o 1% yn amcangyfrif dangosol at ddibenion gwaith modelu.

Mae CNC yn archwilio safleoedd ar sail risg a gwybodaeth. Disgwylir y bydd yn targedu busnesau sy'n cynhyrchu mwy o wastraff, busnesau sy'n cynhyrchu deunyddiau gwastraff sy'n flaenoriaeth neu rai yr amheuir, yn sgil gwybodaeth, eu bod yn torri gofynion deddfwriaethol.

Trafodwyd y ffigur o 1% gyda CNC a phennwyd lefel ddigonol a phriodol o waith archwilio ar gyfer y gwaith modelu. Mae'r ffigur yn ystyried:

- y ddyletswydd ar gwmnïau casglu gwastraff ac awdurdodau lleol fel ei gilydd i gasglu gwastraff y gellir ei ailgylchu oddi wrth eu cwsmeriaid busnes trwy gasgliadau ar wahân, ac o ganlyniad bydd yr asiantau casglu eu hunain yn disgwyl i'w cwsmeriaid rannu eu gwastraff yn barod i'w gasglu;
- y disgwyliad rhesymol bod y rhan fwyaf o fusnesau'n dymuno cydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol.

4) Copi o'r llythyr i Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd mewn perthynas ag amserlen ar gyfer cyhoeddi'r is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Bil

Mae'r amserlen y gofynnoch amdani i'w gweld yn **Atodiad 1**.

Diweddarwyd y tabl hwn ers ei greu'n wreiddiol gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn fy llythyr ar 17 Mehefin 2015. Mae'r newidiadau hyn yn ganlyniad i dystiolaeth newydd fel a ganlyn:

Mae'r dyddiadau dangosol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar ffioedd ar gyfer y system trwyddedu morol, o dan adrannau 78 i 80 o'r Bil, wedi eu diwygio. Y dyddiad arfaethedig ar gyfer cyflwyno ffioedd newydd, ac y bydd rhaid gwneud y rheoliadau ar ei gyfer, yw Ebrill 2017, sy'n cael ei lywio gan yr adolygiad o ffioedd trwyddedu morol sy'n parhau. Mae'r sail resymegol ar gyfer hyn yn cynnwys nifer o ffactorau; Cydsyniad Brenhinol i'r Bil, etholiadau Cynulliad 2016 a'r adolygiad o ffioedd.

Gobeithio y bydd hyn o gymorth i chi. Os hoffech ragor o wybodaeth am y Bil, mae croeso i chi gysylltu â mi. Anfonaf gopïau o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Carl Sargeant'.

Carl Sargeant AC / AM
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Minister for Natural Resources

CC: Alun Ffred Jones AC, Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Atodiad 1

Rhagolwg: Dyddiadau cychwyn disgwylidig ac is-ddeddfwriaeth

Mae'r Atodiad hwn yn nodi'r dyddiadau pryd y disgwylir y bydd darpariaethau'r Bil yn cychwyn, a'r dyddiadau pryd y disgwylir i'r pwerau a drosglwyddir i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth gael eu gweithredu. Hwyrach y byddai'n ddefnyddiol darllen y Datganiad o Fwriad y Polisi ochr yn ochr â'r ddogfen hon.

Dyddiad	Carreg filltir	Nodiadau
Mawrth 2016	-- Dyddiad arfaethedig Cydsyniad Brenhinol, yn amodol ar ewyllys y Cynulliad --	
Mai 2016	I gychwyn ddau fis ar ôl y Cydsyniad Brenhinol.	Rhan 1 (rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy); Rhan 2 (newid yn yr hinsawdd); Rhan 5 (pysgodfeydd ar gyfer pysgod cregyn); Adran 83 (diddymu gofynion cyhoeddi); Adran 84 (apeliadau yn erbyn ardollau draenio arbennig); Adran 85 (pŵer mynediad); adran 86 (is-ddeddfau).
Mai 2016	-- Etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru --	
C3 2016	Gweinidogion Cymru i ddiddymu'r Pwyllgor Rhanbarthol Llifogydd ac Arfordir a sefydlu Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol.	O dan adran 82 y Bil ac adrannau 26B, 26C, a 26D o Ddeddf Rheoli Llifogydd ac Arfordiroedd 2010, fel y'i mewnosodwyd gan adran 82 o'r Bil.
Medi 2016	CNC yn cyhoeddi'r SoNaRR cyntaf.	O dan adran 8 y Bil.
Ionawr 2017	Yr amser cynharaf y byddai Gweinidogion Cymru yn ystyried gwneud rheoliadau ar gyfer casglu gwastraff ar wahân.	O dan adran 45AA o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, fel y'i mewnosodwyd gan adran 66 y Bil.
Ionawr 2017	Yr amser cynharaf y byddai Gweinidogion Cymru yn ystyried gwneud rheoliadau yn gwahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffosydd.	O dan adran 34D o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, fel y'i mewnosodwyd gan adran 67 y Bil.

Ionawr 2017	Yr amser cynharaf y byddai Gweinidogion Cymru yn ystyried gwneud rheoliadau yn gwahardd gwaredu gwastraff trwy losgi.	O dan adran 9A o Fesur Gwastraff (Cymru) 2010, a fewnosodwyd gan adran 68 y Bil.
Mawrth 2017	Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi NNRP.	O dan adran 9 y Bil.
Ebrill 2017	Y dyddiad dangosol pryd bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau ar ffioedd ar gyfer monitro trwyddedau morol a'u hamrywio ac ati.	O dan adran 72A o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, fel y'i mewnosodwyd gan adran 78 y Bil.
Ebrill 2017	Y dyddiad dangosol pryd bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau ar ddarpariaethau pellach ar gyfer talu ffioedd trwyddedau morol.	O dan adran 107A o Ddeddf Mynediad Morol ac Arfordirol 2009, fel y'i mewnosodwyd gan adran 79 y Bil.
Ebrill 2017	Y dyddiad dangosol pryd bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau ar apeliadau yn erbyn amrywio trwyddedau morol ac ati am beidio â thalu ffioedd neu flaendaliadau.	O dan adran 108(2A) o Ddeddf Mynediad Morol ac Arfordirol 2009, fel y'i mewnosodwyd gan adran 80 y Bil.
Mai 2017	Y dyddiad dangosol pryd bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi arweiniad ar weithredu datganiadau ardal.	O dan adran 13 y Bil, y bwriad yw y byddai'r arweiniad yn cael ei ddarparu cyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r Bil dderbyn Cydsyniad Brenhinol.
Mai 2017	Rheoliadau i ddiffinio ystyr unedau carbon.	O dan adran 36 y Bil, bwriedir i'r rheoliadau hyn gael eu gwneud cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ac ar ôl derbyn Cydsyniad Brenhinol, ar ôl cael cyngor y corff cynghori.
Rhagfyr 2018	Yr amser pryd bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi cyhoeddi cyllidebau carbon ar gyfer cyfri allyriadau net Cymru am y cyfnod 2016-2020 a 2020-2025.	O dan adran 31 y Bil.
Ionawr 2020	Yr amser pryd bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi cyhoeddi cyllideb garbon ar gyfer cyfri allyriadau net Cymru am y cyfnod 2025-2030.	O dan adran 31 y Bil.
Rhagfyr 2020	CNC yn cyhoeddi'r ail SoNaRR.	O dan adran 8 y Bil.
Mai 2021	-- Etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru --	

Mehfin 2021	Gweinidogion Cymru yn dechrau eu harolwg cyntaf o NNRP.	O dan adran 9 y Bil.
Ionawr 2025	Yr amser pryd bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi cyhoeddi cyllideb garbon ar gyfer cyfrif allyriadau net Cymru am y cyfnod 2030-2035.	O dan adran 31 y Bil.
Ionawr 2030	Yr amser pryd bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi cyhoeddi cyllidebau carbon ar gyfer cyfrif allyriadau net Cymru am y cyfnod 2035-2040.	O dan adran 31 y Bil.
Ionawr 2035	Yr amser pryd bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi cyhoeddi cyllidebau carbon ar gyfer cyfrifi allyriadau net Cymru am y cyfnod 2040-2045.	O dan adran 31 y Bil.
Ionawr 2040	Yr amser pryd bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi cyhoeddi cyllidebau carbon ar gyfer cyfrif allyriadau net Cymru am y cyfnod 2045-2050.	O dan adran 31 y Bil.